BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

General Osteopathic Council

Welsh Language Scheme
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Cynllun Iaith Gymraeg

Prepared under the Welsh Language Act 1993
Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

July 2011
Gorffennaf 2011

Welsh Language Scheme

The General Osteopathic Council's Welsh Language Scheme was prepared in accordance with the Welsh Language Act 1993 and was approved by the Welsh Language Board under section 14 (1) of the Act on 12 July 2011.

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (1) o'r Ddeddf ar 12 Gorffennaf 2011.

Contents

1 Statement 4

2 Introduction 5

3 Service planning and delivery 8

4 Communicating with the Welsh speaking public 10

5 The GOsC's public face 13

6 Implementing and monitoring our scheme 15

7 Publicising our scheme 19

8 Appendix: Implementation plan and timetable 20

Cynnwys

1 Datganiad 4

2 Cyflwyniad 5

3 Cynllunio a darparu gwasanaethau 8

4 Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg 10

5 Wyneb cyhoeddus y GOsC 13

6 Gweithredu a monitro ein cynllun 15

7 Rhoi cyhoeddusrwydd i'n cynllun 19

8 Atodiad: Cynllun ac amserlen ar gyfer gweithredu 21

1. Statement

1.1 The General Osteopathic Council (GOsC) has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales we will treat the English and Welsh languages on a basis of equality. This scheme sets out how we will give effect to that principle when providing services to the public in Wales.

1.2 We are a London-based healthcare regulator with a UK-wide remit. Although it is not practical to have an office in Wales, we are committed to fulfilling the requirements of the Welsh Language Act in our work with patients and the public. In drawing up this scheme we have taken account of what is appropriate and reasonable in the circumstances.

1.3 While ultimate responsibility for the policy of providing services in Welsh rests with the governing Council of the GOsC, implementation of that policy rests with our Head of Policy and Communications and the Web Manager.

1.4 Any amendments to this scheme from time to time will be made with the approval of the GOsC and the Welsh Language Board.

1. Datganiad

1.1 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Er ein bod yn rheoleiddiwr gofal iechyd â phrif swyddfa yn Llundain, mae cylch gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cwmpasu'r DU gyfan. Er nad yw hi'n ymarferol i ni gael swyddfa yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg yn ein gwaith gyda chleifion a'r cyhoedd. Wrth lunio'r cynllun hwn, rydym wedi ystyried yr hyn sy'n briodol a rhesymol o dan yr amgylchiadau.

1.3 Er mai cyngor llywodraethu'r GOsC sy'n bennaf gyfrifol am y polisi o ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ein Pennaeth Polisi a Chyfathrebu a Rheolwr y We sy'n gyfrifol am roi'r polisi hwnnw ar waith.

1.4 Gwneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn o bryd i'w gilydd gyda chymeradwyaeth y GOsC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2. Introduction

The General Osteopathic Council

2.1 The General Osteopathic Council (GOsC) is a statutory regulator, set up to protect the public by regulating the practice of osteopathy in the United Kingdom. We are a public body established by the Osteopaths Act 1993 to promote public safety, ensure that patients receive the highest standards of osteopathic care, and promote an understanding of osteopathic practice. We maintain the Statutory Register of Osteopaths and by law osteopaths must be registered with us in order to practise in the UK.

2.2 There are currently around 4,495 osteopaths on the Statutory Register of Osteopaths, which is available on our website, at www.osteopathy.org.uk, for the public to use to find an osteopath.

Of these, 3,980 practise in England; 139 in Scotland; 100 in Wales; and 20 in Northern Ireland.

How we are run

2.3 Osteopaths and lay people, seven of each, serve on the General Osteopathic Council (GOsC). This helps to place the interests of patients and the wider public at the forefront of the regulation of osteopathy. The Council, which is chaired by Professor Adrian Eddleston, focuses on strategic and policy development.

It is supported by a staff of 24, headed by the Chief Executive and Registrar Tim Walker, who carry out the activities involved in implementing the policies.

2. Cyflwyniad

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

2.1 Rheoleiddiwr statudol a sefydlwyd i amddiffyn y cyhoedd trwy reoleiddio ymarfer osteopathig yn y Deyrnas Unedig yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC). Rydym yn gorff cyhoeddus a sefydlwyd gan Ddeddf Osteopathiaid 1993 i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, sicrhau bod cleifion yn derbyn y safonau uchaf o ofal osteopathig a hyrwyddo dealltwriaeth o ymarfer osteopathig. Rydym yn cynnal Cofrestr Statudol yr Osteopathiaid ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i osteopathiaid gofrestru gyda ni cyn cael ymarfer yn y DU.

2.2 Ar hyn o bryd, mae tua 4,495 o osteopathiaid ar Gofrestr Statudol yr Osteopathiaid, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.osteopathy.org.uk fel y gall y cyhoedd ddod o hyd i osteopath.

O'r rhain, mae 3,980 yn ymarfer yn Lloegr, 139 yn yr Alban, 100 yng Nghymru ac 20 yng Ngogledd Iwerddon.

Sut y rheolir y Cyngor

2.3 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys saith osteopath a saith lleygwr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn cael sylw priodol wrth reoleiddio osteopatheg. Mae'r Cyngor, a gadeirir gan yr Athro Adrian Eddleston, yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategol a pholisi.

Caiff ei gefnogi gan 24 aelod o staff dan reolaeth y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd Tim Walker, sy'n cyflawni'r gweithgareddau er mwyn gweithredu'r polisïau.

Our work

2.4 Our work includes:

- keeping the Register of all those permitted to practise osteopathy in the UK.
- working with the public and osteopathic profession to promote patient safety by registering qualified professionals.
- setting, maintaining and developing standards of osteopathic competence and conduct.
- helping patients with any concerns or complaints about an osteopath and removing from the Register any osteopaths who are unfit to practise.
- assuring the quality of osteopathic education and ensuring that osteopaths undertake continuing professional development.
- developing a scheme of revalidation to ensure osteopaths remain fit to practise.

2.5 Further information about our activities is available in our Annual Reports, which are available on our website at: www.osteopathy.org.uk.

Equality and diversity

2.6 Our commitment to implementing our Welsh Language Scheme is part of our overall commitment to ensuring that all our activities, as a regulator, an employer and a service provider, promote equality of opportunity. Our Equality Scheme and Action Plan set out our policies and the activities we carry out to support, maintain and develop those policies. The Welsh Language Scheme sets out the particular measures we will take to give effect to the principle of equality set out in the Welsh Language Act.

Ein gwaith

2.4 Mae ein gwaith yn cynnwys:

- cadw'r Gofrestr o'r rheini y caniateir iddynt ymarfer osteopathi yn y DU.
- gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys.
- gosod, cynnal a datblygu safonau o ymddygiad a chymhwysedd osteopathig.
- helpu cleifion gydag unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn ag osteopath a dileu o'r Gofrestr unrhyw osteopathiaid nad ydynt yn gymwys i ymarfer.
- sicrhau ansawdd addysg osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus.
- datblygu cynllun ailddilysu i sicrhau bod osteopathiaid yn parhau'n gymwys i ymarfer.

2.5 Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau yn ein Hadroddiadau Blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan yn: www.osteopathy.org.uk

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

2.6 Mae ein hymrwymiad i roi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith yn rhan o'n hymrwymiad cyffredinol i sicrhau bod ein holl weithgareddau, fel rheoleiddiwr, cyflogwr a darparwr gwasanaethau, yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Cynllun Gweithredu yn nodi'n polisïau a'r gweithgareddau yr ydym yn eu cyflawni i gefnogi, cynnal a datblygu'r polisïau hynny. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb a amlinellir yn Neddf yr Iaith Gymraeg yn cael ei rhoi ar waith.

Patient and public involvement

2.7 We are committed to working with patients and the public, and all those with an interest in osteopathic care and the work of the GOsC. Our website is a key part of our work to ensure that patients and the public have free and open access to information about osteopathy and how it is regulated.

Further information, feedback and complaints

2.8 We welcome feedback on this scheme, including suggestions for improving the scheme. You can send requests for further information, feedback, or a complaint about our services under this scheme, to Margot Pinder at the address below; email: welshlanguage@osteopathy.org.uk or tel: 020 7357 6655 ext 228.

General enquiries

2.9 For general enquiries about this Scheme, please contact:

The General Osteopathic Council
Osteopathy House
176, Tower Bridge Road
London
SE1 3LU

Tel: 020 7357 6655
Fax: 020 7357 0011

email: welshlanguage@osteopathy.org.uk
web: www.osteopathy.org.uk

Cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd

2.7 Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chleifion, y cyhoedd a'r rheini sydd â diddordeb mewn gofal osteopathig a gwaith y GOsC. Mae ein gwefan yn rhan allweddol o'n gwaith i sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn gallu cael mynediad agored ac am ddim i wybodaeth am osteopathi a sut mae'n cael ei reoleiddio.

Gwybodaeth bellach, adborth a chwynion

2.8 Rydym yn croesawu adborth ar y cynllun hwn, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun. Gallwch anfon ceisiadau am ragor o wybodaeth, adborth neu gŵyn am ein gwasanaethau o dan y cynllun hwn at Margot Pinder yn y cyfeiriad isod; e-bost: cymraeg@osteopathy.org.uk; neu ffôn: 020 7357 6655 est 228.

Ymholiadau cyffredinol

2.9 I wneud ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r Cynllun hwn, cysylltwch â:

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176, Tower Bridge Road
London
SE1 3LU

Ffôn: 020 7357 6655
Ffacs: 020 7357 0011

e-bost: cymraeg@osteopathy.org.uk
gwefan: www.osteopathy.org.uk

3. Service planning and delivery

3.1 The General Osteopathic Council (GOsC) acknowledges the importance of providing a service for Welsh speakers as part of a quality service. We are fully committed to the principle that the English and Welsh languages will be treated on the basis of equality.

New policies and initiatives

3.2 As part of any proposal for a new policy, an assessment will be made of the likely implications of that policy for the Welsh Language Scheme and, where relevant, on the ability of other organisations to provide services in Welsh.

3.3 New policies and initiatives will facilitate the use of the Welsh language.

3.4 We are committed to ensuring that new policies and initiatives are consistent with the Welsh Language Scheme and do not undermine it. Where we develop proposals that will potentially affect the scheme, or the schemes of other organisations, we will consult the Welsh Language Board in advance.

3.5 We will ensure that the measures contained in the Welsh Language Scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented.

3.6 All executive and non-executive members of the GOsC involved in policy formulation will be made aware of the Welsh Language Scheme and the responsibilities under the Welsh Language Act 1993.

3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg fel rhan o wasanaeth o safon. Rydym wedi ymrwymo'n llawn i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Polisïau a mentrau newydd

3.2 Fel rhan o unrhyw gynnig ar gyfer polisi newydd, cynhelir asesiad o oblygiadau tebygol y polisi hwnnw ar y Cynllun Iaith Gymraeg a, lle'n berthnasol, mewn perthynas â gallu sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

3.3 Bydd polisïau a mentrau newydd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

3.4 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod polisïau a mentrau newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg ac nad ydynt yn ei danseilio. Os byddwn yn datblygu cynigion a all effeithio ar y cynllun, neu gynlluniau sefydliadau eraill, byddwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw.

3.5 Byddwn yn sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu defnyddio mewn perthynas â pholisïau a mentrau newydd pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.

3.6 Byddwn yn sicrhau bod pob aelod gweithredol ac anweithredol o'r GOsC sy'n rhan o'r gwaith o lunio polisïau'n ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.7 We will maintain, develop and keep under review a plan setting out the measures required to implement these commitments (see Appendix) and we will produce and distribute internal guidelines describing these measures.

3.8 We will not alter our Welsh Language Scheme without the agreement of the Welsh Language Board.

Service delivery and standards

3.9 We are committed to delivering an equally high quality service in Welsh and English in accordance with the contents of this scheme.

3.10 We will:
- > set standards with regard to our services for, and communications with, Welsh patients and the public in Welsh and publicise those on our website;
- > monitor these standards and their implementation;
- > ensure consistency in the standard of services provided.

3.7 Byddwn yn cynnal, datblygu ac adolygu cynllun yn amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn rhoi'r ymrwymiadau hyn ar waith (gweler yr Atodiad) a byddwn yn cynhyrchu a dosbarthu canllawiau mewnol yn disgrifio'r camau hyn.

3.8 Ni fyddwn yn newid ein Cynllun Iaith Gymraeg heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Darpariaeth a safonau gwasanaethau

3.9 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â chynnwys y cynllun hwn.

3.10 Byddwn yn:
- > pennu safonau ar gyfer ein gwasanaethau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn y Gymraeg a'n dulliau cyfathrebu gyda nhw rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ar ein gwefan;
- > monitro'r safonau hyn a'r gwaith o'u gweithredu;
- > sicrhau cysondeb o ran safon y gwasanaethau a ddarperir.

4. Communicating with the Welsh speaking public

4.1 In delivering our services in Welsh in accordance with our Welsh Language Scheme we will give priority to those areas of operation where there is most contact with patients and the public.

4.2 Our communications with patients and the public chiefly concern the search for an osteopath, general information about osteopathy, or concerns and complaints about osteopaths.

4.3 As none of our current staff is Welsh-speaking, we will use a translation agency as necessary. We will ensure that all members of staff are aware of the Welsh Language Scheme and how communication in Welsh is to be managed. We will establish the language of choice of members of the public in Wales and arrange for them to be dealt with in the language of their choice .

Written communications

4.4 We welcome written correspondence (letters, emails and other correspondence) in Welsh, as in English. We will state this on our website and in any publications or communications intended for distribution in Wales.

4.5 Letters and emails received in Welsh will receive a signed reply in Welsh. We will respond to correspondence in Welsh in accordance with the same service standards as correspondence in English. Correspondence received in English will receive a reply in English unless otherwise requested.

4.6 We will keep a record in our stakeholder database of those who wish to communicate in Welsh to enable us to initiate communication with them in Welsh.

4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Wrth ddarparu ein gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny lle rydym yn ymgysylltu fwyaf â chleifion a'r cyhoedd.

4.2 Mae ein cysylltiadau â chleifion a'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â chwilio am osteopath, gwybodaeth gyffredinol am osteopathi neu bryderon a chwynion am osteopathiaid.

4.3 Gan nad yw unrhyw un o'n haelodau staff cyfredol yn siarad Cymraeg, byddwn yn defnyddio cwmni cyfieithu yn ôl yr angen. Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a sut i reoli cyfathrebu yn y Gymraeg. Byddwn yn nodi dewis iaith aelodau'r cyhoedd yng Nghymru ac yn trefnu ein bod yn defnyddio'r iaith honno wrth ymwneud â nhw.

Cyfathrebu'n ysgrifenedig

4.4 Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig (llythyrau, negeseuon e-bost a mathau eraill o ohebiaeth) yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn nodi hyn ar ein gwefan ac mewn unrhyw gyhoeddiadau neu ddeunyddiau y bwriedir eu dosbarthu yng Nghymru.

4.5 Bydd llythyrau a negeseuon e-bost a dderbynnir yn y Gymraeg yn derbyn ymateb wedi'i lofnodi yn y Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg yn unol â'r un safonau gwasanaeth ag a ddefnyddir i ymateb i ohebiaeth Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Saesneg yn derbyn ymateb Saesneg oni nodir yn wahanol.

4.6 Byddwn yn cadw cofnod yn ein cronfa ddata rhanddeiliaid o'r rheini sydd am gyfathrebu yn y Gymraeg i'n galluogi i gychwyn unrhyw gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg.

4.7 Any circulars or standard letters issued to patients and the public in Wales will be bilingual.

Telephone calls

4.8 Due to our location and resources, we are currently unable to offer a telephone service in Welsh. If a call is received in Welsh from a member of the public, the caller will be offered the option of continuing the call in English or writing to us in Welsh and receiving a written reply in Welsh.

4.9 Staff will be issued with guidelines to ensure they are aware of how they should manage telephone calls in Welsh.

4.10 We will monitor the needs of our callers in terms of this provision to ensure that the option of being able to receive and deal with calls in Welsh will be considered.

Public meetings

4.11 Members of the public are welcome at all our public meetings. Notices of meetings held in Wales will be published in Welsh and English and will clearly specify that members of the public who wish to attend will be welcome to contribute in Welsh or English. Those proposing to attend will be asked to inform us in advance of their wish to have a Welsh language interpreter present.

4.12 The GOsC's statutory fitness to practise hearings are held in England and through the medium of English. Prior to hearings concerning osteopaths practising in Wales, members of the public who are to be called as witnesses will be offered the choice of addressing the hearing in Welsh and appropriate interpreting arrangements will be made.

4.7 Bydd unrhyw gylchlythyrau neu lythyrau safonol a ddosberthir i gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Galwadau ffôn

4.8 Oherwydd ein lleoliad a'n hadnoddau, nid ydym yn gallu cynnig gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Os derbynnir galwad ffôn yn y Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd, byddwn yn rhoi dewis i'r galwr naill ai barhau â'r alwad yn y Saesneg neu ysgrifennu atom yn y Gymraeg a derbyn ymateb ysgrifenedig yn y Gymraeg.

4.9 Byddwn yn cyflwyno canllawiau i staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut y dylent reoli galwadau ffôn yn y Gymraeg.

4.10 Byddwn yn monitro anghenion ein galwyr o ran y ddarpariaeth hon i sicrhau y bydd y dewis o allu derbyn ac ymdrin â galwadau ffôn yn y Gymraeg yn cael ei ystyried.

Cyfarfodydd cyhoeddus

4.11 Mae croeso i'r cyhoedd fynychu ein holl gyfarfodydd cyhoeddus. Cyhoeddir hysbysiadau o gyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddant yn nodi'n glir y bydd croeso i aelodau'r cyhoedd sydd am fynychu gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnir i'r rheini sy'n bwriadu mynychu roi gwybod i ni ymlaen llaw os hoffent i gyfieithydd fod yn bresennol.

4.12 Cynhelir gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer statudol y GOsC yn Lloegr a thrwy gyfrwng y Saesneg. Cyn y gwrandawiadau'n ymwneud ag osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru, bydd aelodau'r cyhoedd a fydd yn cael eu galw fel tystion yn cael cynnig annerch y gwrandawiad yn y Gymraeg, a bydd trefniadau cyfieithu priodol yn cael eu gwneud.

GOsC website

4.13 Our public website contains a section devoted to information for the general public, containing core details of our work. This section will be available in Welsh, along with online versions of our Welsh Language publications.

Gwefan y GOsC

4.13 Mae ein gwefan gyhoeddus yn cynnwys adran arbennig yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac sy'n cynnwys manylion craidd ein gwaith. Bydd yr adran hon ar gael yn Gymraeg, ynghyd â fersiynau ar-lein o'n cyhoeddiadau Cymraeg.

5. The GOsC's public face

Corporate identity

5.1 Our name in Welsh is Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol and, as our logo includes our name, written as 'General Osteopathic Council', we will adapt our logo to include our name in Welsh for use on Welsh publications and press notices, publicity and advertising in Wales, along with our name and address in Welsh. However, we will retain the acronym 'GOsC' in the logo and in Welsh and English documents. We will have bilingual versions of official stationery which will be used when corresponding with the public in Wales.

Publications

5.2 Publications aimed at the public in Wales will be published in English and Welsh, in bilingual documents where practicable. Where we issue separate Welsh and English versions they will be issued simultaneously and with the same format and design where possible, distributed together and equally accessible.

5.3 Most of our printed publications aimed at the public are free of charge. However, where a fee is charged for a document, the cost for the Welsh and English versions will be the same. Where a fee is charged for a bilingual document, the cost will not be greater than a single language version of that document.

5.4 Guidance and other technical or specialised material aimed primarily at osteopaths and other health professionals and not directly at the public will be in English. However, we will offer a translation into Welsh on request.

5. Wyneb cyhoeddus y GOsC

Hunaniaeth gorfforaethol

5.1 Gan fod ein logo'n cynnwys ein henw, sef 'General Osteopathic Council', byddwn yn addasu ein logo i gynnwys ein henw yn y Gymraeg ar gyhoeddiadau a hysbysiadau, deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebion Cymraeg yng Nghymru, ynghyd â'n henw a'n cyfeiriad yn y Gymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r acronym 'GOsC' yn y logo ac mewn dogfennau Cymraeg a Saesneg. Bydd gennym fersiynau dwyieithog o bapur pennawd, slipiau cyfarch ac ati swyddogol a fydd yn cael eu defnyddio wrth ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Cyhoeddiadau

5.2 Bydd cyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, mewn dogfennau dwyieithog lle'n bosibl. Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a chyda'r un fformat a chynllun lle'n bosibl, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yr un mor hygyrch.

5.3 Mae'r rhan fwyaf o'n cyhoeddiadau argraffedig sy'n targedu'r cyhoedd am ddim. Fodd bynnag, os codir tâl am ddogfen, bydd cost y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath. Os codir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd y gost yn fwy na chost fersiwn uniaith o'r ddogfen honno.

5.4 Bydd canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall sy'n targedu osteopathiaid a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn bennaf, yn hytrach na'r cyhoedd yn uniongyrchol, yn y Saesneg. Fodd bynnag, byddwn yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.

Press notices

5.5 We will issue bilingual press releases and statements to the media in Wales.

5.6 On rare occasions where it is not possible to arrange for the translation of an urgent press release or statement in time to issue a bilingual document or a Welsh translation at the same time as the English document a translation will be issued as soon as possible.

Publicity and advertising

5.7 Publicity material aimed at the public in Wales, such as our forthcoming public information leaflets, will be made available in bilingual format.

5.8 Apart from such public information material, we run very few publicity and advertising campaigns. However, any that we do conduct in Wales will be bilingual, treating Welsh and English equally.

5.9 Any public surveys or market research carried out in Wales will be in bilingual format.

Hysbysiadau yn y wasg

5.5 Byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau a datganiadau dwyieithog i'r cyfryngau yng Nghymru.

5.6 Ar adegau prin pan na fydd hi'n bosibl trefnu i gyfieithu datganiad brys i'r wasg er mwyn cyhoeddi dogfen ddwyieithog neu gyfieithiad Cymraeg yr un pryd â'r ddogfen Saesneg, cyhoeddir cyfieithiad cyn gynted â phosibl.

Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

5.7 Bydd deunydd cyhoeddusrwydd sy'n targedu'r cyhoedd yng Nghymru, fel ein taflenni gwybodaeth newydd i'r cyhoedd, ar gael mewn fformat dwyieithog.

5.8 Heblaw deunydd gwybodaeth i'r cyhoedd, ychydig iawn o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu a gynhaliwn. Fodd bynnag, bydd unrhyw ymgyrchoedd a gynhaliwn yng Nghymru'n ddwyieithog, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

5.9 Bydd unrhyw arolygon cyhoeddus neu ymchwil i'r farchnad a gynhelir yng Nghymru mewn fformat dwyieithog.

6. Implementing and monitoring our scheme

Staffing and recruitment

6.1 The GOsC's Human Resources Manager will have responsibility for ensuring that staff are aware of and implement the requirements of the scheme, particularly in respect of recruitment, training and supervision.

6.2 We do not have an office in Wales and, at present, we do not have any posts where the ability to speak Welsh is a requirement. However, we will keep this under review and should such a requirement be identified, it will be reflected in the relevant job description and the process of recruitment will be planned accordingly.

6.3 We expect that our commitments to providing services under the scheme will be predominantly satisfied by using Welsh translation agencies. However, should any member of staff whose work entails interaction with the public wish to learn Welsh, we will encourage and support them in so doing, taking into account the development of the individual concerned and the need to achieve the GOsC's statutory objectives.

Implementing the scheme

6.4 The overall responsibility for implementing the Welsh Language Scheme lies with the Head of Policy and Communications, who will be assisted by the Web Manager.

6.5 All senior managers have a responsibility to implement those aspects of the scheme relevant to their areas of work. They are also responsible for ensuring that their staff are aware of the requirements of our scheme and the implications for their day-to-day activities. Guidance will be issued to support them.

6. Gweithredu a monitro ein cynllun

Staffio a recriwtio

6.1 Rheolwr Adnoddau Dynol y GOsC fydd yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn ymwybodol o ofynion y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio, hyfforddi a goruchwylio, ac yn eu rhoi ar waith.

6.2 Nid oes gennym swyddfa yng Nghymru ac, ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ofynnol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r trefniant hwn yn gyson ac, os nodir gofyniad o'r fath, caiff hwnnw ei adlewyrchu yn y swydd-ddisgrifiad perthnasol a chaiff y broses recriwtio ei chynllunio'n unol â hynny.

6.3 Rydym yn disgwyl y bydd ein hymrwymiadau i ddarparu gwasanaethau o dan y cynllun yn cael eu bodloni'n bennaf trwy ddefnyddio cwmnïau cyfieithu. Fodd bynnag, os bydd unrhyw aelod o staff y mae ei waith yn cynnwys rhyngweithio â'r cyhoedd yn dymuno dysgu Cymraeg, byddwn yn ei annog ac yn ei gefnogi i wneud hynny, gan ystyried datblygiad yr unigolyn dan sylw a'r angen i gyflawni amcanion statudol y GOsC.

Rhoi'r cynllun ar waith

6.4 Y Pennaeth Polisi a Chyfathrebu, gyda chymorth Rheolwr y We, sy'n gyfrifol am roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.

6.5 Mae gan bob uwch reolwyr gyfrifoldeb i weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w maes penodol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o ofynion ein cynllun a'r goblygiadau i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd. Cyhoeddir canllawiau i'w cynorthwyo.

6.6 New staff will be informed, as part of their formal induction to the organisation, of our commitment to our Welsh Language Scheme and its implications for their work.

6.7 We will ensure that the translators we use are suitably qualified and able to provide a high quality service.

Third parties

6.8 We will ensure that third parties carrying out work on our behalf are aware of our Welsh Language Scheme, and their duties under it, where relevant. Any contract or agreement will include reference to the specific elements of the scheme relevant to the undertaking. We will monitor their compliance and this monitoring will be the responsibility of the department contracting out the work.

Monitoring the scheme

6.9 Progress in implementing the measures in the scheme against the approved timetable and targets (see Appendix) will be monitored by our senior management team and an annual report on progress will be submitted to the GOsC Council and the Welsh Language Board.

6.10 Each department will report on its activities under the scheme in the following areas:

> service planning and delivery, as set out in Section 3 of this scheme;
> communicating with the Welsh speaking public, as set out in Section 4 of this scheme;
> the GOsC's public face, as set out in Section 5 of this scheme.

6.11 The annual report will also include any:

> feedback from patients and the public;
> suggestions for improving the scheme;
> information regarding complaints about the scheme.

6.6 Hysbysir staff newydd am ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith Gymraeg a'i oblygiadau i'w gwaith fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu ffurfiol yn y sefydliad.

6.7 Byddwn yn sicrhau bod y cyfieithwyr rydym yn eu defnyddio'n gymwys ac yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel.

Trydydd partïon

6.8 Byddwn yn sicrhau bod trydydd partïon sy'n cyflawni gwaith ar ein rhan yn ymwybodol o'n Cynllun Iaith Gymraeg, a'u dyletswyddau oddi tano, lle'n berthnasol. Bydd unrhyw gontract neu gytundeb yn cynnwys cyfeiriad at elfennau penodol y cynllun sy'n berthnasol i'r gwaith. Byddwn yn monitro eu cydymffurfiaeth, a'r adran sy'n contractio'r gwaith fydd yn gyfrifol am y gwaith monitro hwn.

Monitro'r cynllun

6.9 Bydd cynnydd o ran rhoi'r mesurau yn y cynllun ar waith yn erbyn yr amserlen a'r targedau a gymeradwywyd (gweler yr Atodiad) yn cael ei fonitro gan ein tîm rheoli uwch, a chyflwynir adroddiad blynyddol ar gynnydd i Gyngor y GOsC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.10 Bydd pob adran yn adrodd ar ei gweithgareddau o dan y cynllun yn y meysydd canlynol:

> cynllunio a darparu gwasanaethau, fel yr amlinellir yn Adran 3 o'r cynllun hwn;
> cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, fel yr amlinellir yn Adran 4 o'r cynllun hwn;
> wyneb cyhoeddus y GOsC, fel yr amlinellir yn Adran 5 o'r cynllun hwn.

6.11 Bydd yr adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys unrhyw:

> adborth gan gleifion a'r cyhoedd;
> awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun;
> gwybodaeth am gwynion am y cynllun.

6.12 The monitoring will cover the activities of any third party agency carrying out work on our behalf.

6.13 In the third year of the scheme's implementation we will produce a report assessing and evaluating the implementation of the scheme over the preceding three years and present this report to the Welsh Language Board.

6.14 We will then revise and update the scheme as appropriate.

6.15 We will periodically seek feedback from Welsh-speaking service users about the range and quality of our services under the scheme, for instance through the use of surveys on our website, surveys sent directly to service users who are identified in our stakeholder database, or feedback through the standard feedback channels already employed on our website.

6.16 We will make it clear, in such surveys, in the scheme document and on our website that we welcome feedback and suggestions for improving the scheme in Welsh and English.

Complaints

6.17 We will adopt a complaints procedure to deal with any grievances regarding the scheme and this will be available on our website. We will make it clear that complaints can be received in Welsh and English.

Complaints about our services under this scheme should be sent to Margot Pinder at:

The General Osteopathic Council
Osteopathy House
176, Tower Bridge Road
London
SE1 3LU

Tel: 020 7357 6655 ext 228
email: welshlanguage@osteopathy.org.uk

6.12 Bydd y gwaith monitro'n cwmpasu gweithgareddau unrhyw drydydd parti sy'n cyflawni gwaith ar ein rhan.

6.13 Yn nhrydedd flwyddyn y cynllun, byddwn yn cynhyrchu adroddiad yn asesu a gwerthuso'r gwaith o weithredu'r cynllun dros y tair blynedd flaenorol ac yn cyflwyno'r adroddiad hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.14 Yna, byddwn yn diwygio a diweddaru'r cynllun fel sy'n briodol.

6.15 O bryd i'w gilydd, byddwn yn gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg am ystod ac ansawdd ein gwasanaethau o dan y cynllun, er enghraifft trwy ddefnyddio arolygon ar ein gwefan, arolygon a anfonir yn uniongyrchol at ddefnyddwyr gwasanaethau a nodir yn ein cronfa ddata rhanddeiliaid neu adborth trwy'r dulliau adborth safonol a ddefnyddir eisoes ar ein gwefan.

6.16 Byddwn yn ei gwneud hi'n glir mewn arolygon o'r fath yn nogfen y cynllun ac ar ein gwefan ein bod yn croesawu adborth ac awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwynion

6.17 Byddwn yn mabwysiadu gweithdrefn gwyno i fynd i'r afael ag unrhyw gwynion am y cynllun, a bydd hon ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn ei gwneud hi'n glir y byddwn yn gallu derbyn cwynion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylid anfon cwynion am ein gwasanaethau o dan y cynllun hwn at Margot Pinder yn:

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176, Tower Bridge Road
London
SE1 3LU

Ffôn: 020 7357 6655 est 228
e-bost: cymraeg@osteopathy.org.uk

Timescales and targets

6.18 The timescales and targets for implementing our scheme, against which we will monitor our performance, are set out in the implementation plan in the Appendix on page 20.

Reporting on performance

6.19 We will give regular feedback about our performance in implementing our Welsh Language Scheme to the senior management team and all staff. We are also committed to publishing information about our performance and we will do this through:

- the annual report to our Council on the operation of the scheme;
- our annual report to the Welsh Language Board;
- our three-year report to the Welsh Language Board, approximately three years after the publication of the scheme;
- information in our annual report.

6.20 If published standards and targets are not met we will produce a report explaining why, along with the steps we will take to put matters right.

Amserlenni a thargedau

6.18 Amlinellir yr amserlenni a'r targedau ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith, y byddwn yn monitro ein perfformiad yn eu herbyn, yn y cynllun gweithredu yn yr Atodiad ar dudalen 21.

Adrodd ar berfformiad

6.19 Byddwn yn darparu adborth rheolaidd ar ein perfformiad o ran rhoi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith i'r tîm rheoli uwch a phob aelod o staff. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth am ein perfformiad, a byddwn yn gwneud hyn trwy:

- yr adroddiad blynyddol i'n Cyngor ar weithrediad y cynllun;
- ein hadroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
- ein hadroddiad tair blynedd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, tua thair blynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun;
- gwybodaeth yn ein hadroddiad blynyddol.

6.20 Os na chaiff safonau a thargedau cyhoeddedig eu cyflawni, byddwn yn cynhyrchu adroddiad yn esbonio pam, ynghyd â'r camau y byddwn yn eu cymryd i unioni hynny.

7. Publicising our scheme

7.1 We will publicise our scheme by:

> publishing it on our website and giving it prominence on the website when it is launched;
> issuing a bilingual press release;
> making all relevant stakeholders aware of its publication. Relevant stakeholders include registrants, other osteopathic organisations, patient groups, other regulators and other healthcare organisations.

7.2 We will publicise our Welsh language services to the public in the scheme itself, on our website and in any publicity targeted at patients and the public in Wales.

7.3 We will ensure that employees are made aware of the scheme, the Welsh language services we offer and the implications for their day-to-day work. This will form part of the initial induction for new staff and will be reinforced at regular intervals, for instance during equality and diversity training or when we are reporting on our performance in implementing the scheme.

7. Rhoi cyhoeddusrwydd i'n cynllun

7.1 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n cynllun trwy:

> ei gyhoeddi ar ein gwefan a rhoi lle amlwg iddo ar ein gwefan pan gaiff ei lansio;
> cyhoeddi datganiad dwyieithog i'r wasg;
> sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn ymwybodol o'i gyhoeddiad. Mae rhanddeiliaid perthnasol yn cynnwys unigolion cofrestredig, sefydliadau osteopathig eraill, grwpiau cleifion, rheoleiddwyr eraill a sefydliadau gofal iechyd eraill.

7.2 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yn y cynllun ei hun, ar ein gwefan ac mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd sy'n targedu cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru.

7.3 Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr cyflogedig yn ymwybodol o'r cynllun, y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu cynnig a'r goblygiadau i'w gwaith o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn rhan o'r cyfnod ymsefydlu cychwynnol ar gyfer staff newydd, a chaiff ei atgyfnerthu'n rheolaidd, er enghraifft yn ystod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth neu wrth adrodd ar ein perfformiad wrth roi'r cynllun ar waith.

8. Appendix: Implementation plan

	Target	Timetable	Lead
1	Offer witnesses at Fitness to Practise hearings a choice of language	Implemented and ongoing	Head of Regulation
2	Welsh translation of key public and patient information on public website	May 2011 onwards	Web Manager
3	Include in stakeholder database list of individuals and organisations who wish to communicate in Welsh	May 2011 onwards	Communications Manager
4	Develop and adopt logo in Welsh	July 2011	Web Manager
5	Bilingual versions of official stationery	July 2011	Web Manager
6	Guidance to all managers on the requirements and implications of the scheme	July 2011	Web Manager
7	Publish Welsh Language Scheme and publicise	July 2011	Web Manager Communications Manager
8	Training for all staff on the scheme	August 2011 onwards	Human Resources Manager
9	Issue guidelines to staff on Welsh Language communications	August 2011	Web Manager
10	Brief Council and Committee members on the requirements of the scheme	August 2011	Governance Manager
11	Include the Welsh Language Scheme in induction programme for new Council and Committee members	August 2011 onwards	Governance Manager
12	Include the Welsh Language Scheme in new staff induction programmes	August 2011 onwards	Human Resources Manager
13	Issue relevant press releases bilingually	August 2011 onwards	Communications Manager
14	Issue guidelines on preparing bilingual publications	September 2011	Web Manager

8. Atodiad: Cynllun gweithredu

	Targed	Amserlen	Arweinydd
1	Rhoi dewis iaith i dystion mewn gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer	Wedi'i weithredu ac yn parhau	Pennaeth Rheoleiddio
2	Cyfieithu gwybodaeth allweddol i gleifion a'r cyhoedd ar y wefan gyhoeddus	Mai 2011 ymlaen	Rheolwr y We
3	Cynnwys rhestr o unigolion a sefydliadau sydd am gyfathrebu yn y Gymraeg yn y gronfa ddata rhanddeiliaid	Mai 2011 ymlaen	Rheolwr Cyfathrebu
4	Datblygu a mabwysiadu logo yn y Gymraeg	Gorffennaf 2011	Rheolwr y We
5	Fersiynau dwyieithog o bapur pennawd, slipiau cyfarch ac ati swyddogol	Gorffennaf 2011	Rheolwr y We
6	Canllawiau i bob rheolwr ar ofynion a goblygiadau'r cynllun	Gorffennaf 2011	Rheolwr y We
7	Cyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2011	Rheolwr y We Rheolwr Cyfathrebu
8	Hyfforddiant i staff ar y cynllun	Awst 2011 ymlaen	Rheolwr Adnoddau Dynol
9	Cyhoeddi canllawiau i staff ar gyfathrebu yn Gymraeg	Awst 2011	Rheolwr y We
10	Briffio aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor ar ofynion y cynllun	Awst 2011	Rheolwr Llywodraethu
11	Cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn y rhaglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r Cyngor a'r Pwyllgor	Awst 2011 ymlaen	Rheolwr Llywodraethu
12	Cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn rhaglenni ymsefydlu staff newydd	Awst 2011 ymlaen	Rheolwr Adnoddau Dynol
13	Cyhoeddi datganiadau perthnasol i'r wasg yn ddwyieithog	Awst 2011 ymlaen	Rheolwr Cyfathrebu
14	Cyhoeddi canllawiau ar baratoi cyhoeddiadau dwyieithog	Medi 2011	Rheolwr y We

Target	Timetable	Lead
15 Produce new publications for patients and public in bilingual/translated versions	September 2011 ongoing	Web Manager/ Communications Department
16 Ensure organisational policies reflect our commitments under the Welsh Language Scheme	September 2011 onwards	Head of Policy and Communications Governance Manager Human Resources Manager
17 Ensure impact assessment procedures reflect requirements of Welsh Language Scheme	September 2011 onwards	Head of Policy and Communications Senior Management Team
18 Publish annual report on progress of scheme and send to Welsh Language Board	July 2012 and annually at the same time thereafter	Web Manager
19 Assess and evaluate performance in implementing scheme over previous three years and report to Welsh Language Board	July 2014	Web Manager
20 Review and revise scheme and publish revised scheme	2014	Web Manager

Targed	Amserlen	Arweinydd
15 Cynhyrchu cyhoeddiadau newydd ar gyfer cleifion a'r cyhoedd mewn fersiynau dwyieithog/wedi'u cyfieithu	Medi 2011 ymlaen	Rheolwr y We/Adran Gyfathrebu
16 Sicrhau bod polisïau sefydliadol yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg	Medi 2011 ymlaen	Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Rheolwr Llywodraethu Rheolwr Adnoddau Dynol
17 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu effaith yn adlewyrchu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg	Medi 2011 ymlaen	Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Tîm Rheoli Uwch
18 Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y cynllun a'i anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2012 ac yn flynyddol ar yr un adeg o hynny ymlaen	Rheolwr y We
19 Asesu a gwerthuso perfformiad o ran rhoi'r cynllun ar waith dros y tair blynedd flaenorol ac adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2014	Rheolwr y We
20 Adolygu a diwygio'r cynllun a chyhoeddi cynllun diwygiedig	2014	Rheolwr y We

General Osteopathic Council

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

phone/ffôn: 020 7357 6655
www.osteopathy.org.uk